# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 329(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Diabetes math 2

(30 munud)

**NDM7552** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) mai Cymru yw'r lle gyda'r cyfraddau uchaf o ddiabetes math 2 o unrhyw le yng ngorllewin Ewrop, lle mae dros 200,000 wedi cael diagnosis, lle yr amgcangyfrifir bod 65,000 gyda math 2 heb ddiagnosis, a lle mae 500,000 arall mewn perygl o gael diabetes;

b) bod gofalu am bobl â diabetes eisoes yn defnyddio 10 y cant o gyllideb y GIG;

c) y risgiau cynyddol o ddal COVID-19 ar gyfer dinasyddion sydd â diabetes fel cyflwr sy'n bodoli eisoes; a

d) llwyddiant a chost-effeithiolrwydd y rhaglen Sgiliau Maeth am Oes, sydd wedi ennill sawl gwobr, a dreialwyd yng Nghwm Afan.

2. Yn annog Llywodraeth Cymru i brif ffrydio'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes ledled Cymru fel elfen ganolog o gynllun atal diabetes i Gymru.

**Cyd-gyflwynwyr**

Dai Lloyd

Jack Sargeant

**Cefnogwyr**

Andrew RT Davies

Darren Millar

Helen Mary Jones

Jayne Bryant

## 6 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar adferiad hirdymor o COVID-19

(30 munud)

**NDM7623** **Russell George (Sir Drefaldwyn)**

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei ymchwiliad, Adferiad tymor hir o COVID-19, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2021.

## 7 Dadl ar ddeiseb P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng

(30 munud)

**NDM7624** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng' a gasglodd 5,159 o lofnodion.

Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Amseroedd aros y GIG

(30 munud)

**NDM7626** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 1 o bob 5 claf ar restr aros a bod dros 2,000 o bobl wedi aros mwy na dwy flynedd am driniaeth.

2. Yn cydnabod bod 5 o bob 7 bwrdd iechyd wedi bod mewn mesurau arbennig neu wedi bod yn destun ymyrraeth wedi'i thargedu dros y pum mlynedd diwethaf.

3. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi dal GIG Cymru yn ôl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun adfer ar frys ar gyfer GIG Cymru a fydd yn:

a) clirio'r ôl-groniad o driniaethau a sicrhau nad oes rhaid i neb aros mwy na blwyddyn am driniaeth;

b) recriwtio o leiaf 1,200 o feddygon a 2,000 o nyrsys i leihau amseroedd aros; ac

c) trawsnewid iechyd meddwl drwy ei drin â'r un brys ag iechyd corfforol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Rebecca Evans (Gŵyr)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod:

a) er gwaethaf y cyfnod heriol hwn, fod statws uwchgyfeirio pedwar bwrdd iechyd, drwy gymorth ychwanegol, a staff ymroddedig y GIG, wedi'i ostwng, a bod gennym erbyn hyn un bwrdd iechyd o dan fesurau arbennig ac un yn destun ymyriad wedi'i dargedu;

b) yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac ar draws y byd;

c) ac yn cydnabod cyfraniad eithriadol yr holl staff iechyd a gofal yn ystod y pandemig; a

d) yr angen am gynllun adfer clir i gynnwys pob maes o'r gwasanaethau iechyd, megis iechyd meddwl, er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod datganoli wedi dal y ddarpariaeth o ofal iechyd a'i chanlyniadau yn ôl yng Nghymru.

Yn galw am ddull integredig DU-gyfan o ymdrin â gofal iechyd gydag un Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

**Cyd-gyflwynwr**

Gareth Bennett (Canol De Cymru)

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y ffaith bod mwy na 23,000 o ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU wedi methu â chael lleoedd hyfforddi nyrsys y llynedd ac y gwrthodwyd lle i fwy na 54 y cant o ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU i gyrsiau nyrsio ers 2010.

Yn credu bod GIG Cymru wedi cael ei ddal yn ôl gan lywodraethau'r DU a Chymru oherwydd diffyg llwyr o gynllunio gweithlu dros sawl degawd.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda darparwyr addysg uwch y DU i ddarparu mwy o leoedd hyfforddiant meddygol i fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU;

b) gweithio gyda'r colegau brenhinol a chyrff proffesiynol i asesu gwir anghenion staffio GIG Cymru;

c) recriwtio digon o feddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau enfawr o ran amseroedd aros am driniaeth yn ogystal ag amseroedd aros am ddiagnosis;

d) sicrhau na fydd unrhyw un yn aros mwy na 12 mis am driniaeth; ac

e) trawsnewid iechyd meddwl drwy sicrhau ei fod yn cael ei drin yn gyfartal ag iechyd corfforol.

**Gwelliant 4.** Siân Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai'r unig ffordd o drawsnewid iechyd a gofal yw drwy:

a) ffocws newydd ar fesurau ataliol; a

b) integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor drwy wasanaeth iechyd a gofal cenedlaethol integredig newydd.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7625** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Gweithio i wella? Diffygion yn achos Kelly Wilson ac archwilio i ba raddau y mae'r diwylliant a'r prosesau o fewn y GIG wedi newid.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Mawrth 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 03/03/2021 i'w hateb ar 10/03/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

1 OQ56410 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Ngorllewin Casnewydd?

**Hefin David** *Caerffili*

2 OQ56386 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i ffermwyr y mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn debygol o effeithio arnynt?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

3 OQ56390 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r diwydiant ffermio yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

4 OQ56392 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn defnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r amgylchedd?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

5 OQ56391 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o danwyddau gwyrddach yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

6 OQ56379 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles anifeiliaid?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ56402 **(e)**

Pa bwerau newydd sydd ar gael i awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i'w galluogi i ddelio â storio coed gwastraff, yn sgil y tanau naddion pren yn Heol-y-Cyw yn 2016?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

8 OQ56407 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoliadau Llywodraeth Cymru i wahardd gwerthu cŵn bach trydydd parti, a elwir fel arall yn gyfraith Lucy?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ56404 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Awdurdod Glo ynghylch llifogydd diweddar yn ardal Castell-nedd Port Talbot?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

10 OQ56387 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am y cynllun Arbed yn Arfon?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

11 OQ56382 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ffermwyr ym Mhreseli Sir Benfro?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

12 OQ56411 **(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer yr ardaloedd gwyrdd mewn dinasoedd a threfi ledled Cymru?

## Y GWEINIDOG TAI A LLYWODRAETH LEOL

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

1 OQ56408 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd addasiadau i'r cartref fel ffordd i alluogi pobl hŷn i fyw yn iachach ac yn fwy annibynnol?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

2 OQ56399 **(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran darparu addasiadau i'r cartref i bobl ag anableddau?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

3 OQ56406 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ56395 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol yn ystod tymor y Senedd hon?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ56389 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y broses gynllunio yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn fwy ymatebol i breswylwyr?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OQ56383 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector tai ym Mhreseli Sir Benfro?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

7 OQ56384 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio polisi cynllunio yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

8 OQ56412 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch ymdrechion i annog awdurdodau lleol i gefnogi economïau lleol yng ngogledd Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

9 OQ56415 **(e)**

Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau na fydd pandemig y coronafeirws yn cael effaith andwyol ar awdurdodau lleol o safbwynt ariannol?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

10

## OQ56409 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd mewn perthynas â chymorth tai i fyfyrwyr yn y sector rhentu preifat?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

11

## OQ56398 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch yr effaith y mae'r dreth a delir wrth brynu eiddo preswyl yn ei chael ar stoc tai Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

12

## OQ56380 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu tai cyngor yng Nghymru?